



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion

Diwygiadau i Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 – proses gymeradwyo dau gam ar gyfer

Chwefror 2020

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad:

WG36071 - Rheoliadau i gyflwyno proses gymeradwyo dau gam ar gyfer mabwysiadwyr

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 3 Hydref 2018 a daeth i ben ar 9 Ionawr 2019. Derbyniwyd 8 ymateb gan amrywiaeth o randdeiliaid a phartïon â diddordeb.

Camau Gofynnol

Er gwybodaeth yn unig.

Gwybodaeth bellach

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:

Y Gangen Gweithredu Deddfwriaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: RISCAct2016@llyw.cymru

Copiâu ychwanegol

Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/diwygiadau-i-reoliadau-asiantaethau-mabwysiadu-cymru-2005>

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Adran 1

- 1.1 Cyflwyniad
- 1.2 Y cyd-destun ar gyfer newid
- 1.3 Yr ymgynghoriad hwn
- 1.4 Digwyddiadau ymgynghori
- 1.5 Y camau nesaf

Adran 2

- 2.1 Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru
- 2.2 Cwestiynau ychwanegol

Atodiadau

- Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

Adran 1

1.1 Cyflwyniad

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, cafodd fframwaith cyfreithiol newydd ei greu ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, gan basio dau ddarn o ddeddfwriaeth nodedig - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Y nod cyffredinol oedd diwygio ac atgyfnerthu cyfraith gofal cymdeithasol, er mwyn gwella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a'u gofalwyr.

Fel rhan o'r rhaglen hon i ddiwygio'r gyfraith gofal cymdeithasol, mae Llywodraeth Cymru yn manteisio ar y cyfle i foderneiddio'r broses a fydd yn sicrhau bod pobl sy'n dymuno mabwysiadu plentyn yn cael eu hasesu a'u cymeradwyo fel mabwysiadwyr posibl.

1.2 Y cyd-destun ar gyfer newid

Sefydlwyd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (NAS) gyda'r diben o wella gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru. Ers hynny mae wedi dilyn agenda gynhwysfawr o ddiwygio, ac mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r rhaglen foderneiddio hon drwy ddeddfu i symud i broses dau gam ar gyfer asesu a chymeradwyo darpar fabwysiadwyr yng Nghymru.

Mae system debyg wedi bod ar waith yn Lloegr ers peth amser ac ystyrir ei bod wedi bod yn ddefnyddiol o ran symleiddio proses sy'n gallu bod yn feichus, yn enwedig pan fo'n amlwg ar unwaith na all ymgeisydd penodol fod yn llwyddiannus oherwydd mater difrifol sy'n anochel yn ei anghymwyso rhag bod yn fabwysiadwr. Byddai'r newid a gynigir gennym yn golygu na fyddai rhwymedigaeth gyfreithiol mwyach, mewn achosion o'r fath, i'r panel ystyried cais llawn sy'n gwbl anaddas cyn y gellid ei wrthod.

Rydym hefyd yn defnyddio'r cyfle deddfwriaethol hwn i fyrhau'r amser hiraf a all fynd heibio cyn y bydd yn rhaid rhoi manylion mabwysiadwr neu blentyn ar Gofrestr Fabwysiadu Cymru. Y gofyniad newydd fyddai i'r manylion dan sylw gael eu rhoi ar y gofrestr cyn gynted â phosibl ac o fewn un mis ar y mwyaf, yn hytrach na'r tri mis presennol. Y rheswm dros y newid hwn yw er mwyn helpu i gyflymu'r paru rhwng plant a mabwysiadwyr, gan leihau'r amser y gall plant aros am deulu mabwysiadol.

1.3 Yr ymgynghoriad hwn

Roedd yr ymgynghoriad, a gynhaliwyd rhwng 3 Hydref 2018 a 9 Ionawr 2019, yn gofyn am farn ar gynigion i

- sefydlu proses dau gam ar gyfer asesu a chymeradwyo darpar fabwysiadwyr;
- galluogi 'swyddogion awdurdodedig' i dystio i gydsyniad rhiant neu warcheidwad i orchmynion lleoli neu fabwysiadu, lle mae'r rhiant neu'r gwarcheidwad yn byw y tu allan i Gymru a Lloegr;

- lleihau i 1 mis (yn lle 3) y cyfnod hwyaf y mae'n rhaid i asiantaethau ei ddefnyddio i ychwanegu at Gofrestr Fabwysiadu Cymru holl fanylion y mabwysiadwyr a gymeradwywyd a manylion y plant sydd i'w lleoli ar gyfer eu mabwysiadu.

Cafwyd 8 ymateb i'r ymgynghoriad. Naratif yn unig oedd rhai o'r rhain ac felly nid ydynt yn ymddangos yn y crynodeb o ymatebion ticio blychau yn yr adroddiad hwn. Cyflwynwyd un ymateb cyfansawdd gan Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru ar ran y gwasanaeth ei hun; rheolwyr mabwysiadu o'r pum cydweithrediaeth ranbarthol; Cymdeithas Plant Dewi Sant; Barnardo's Cymru ac Adoption UK.

Mae'r holl ymatebion wedi cael eu hystyried yn gyfartal o ran y sylwadau a dderbyniwyd. Mae rhestr o'r rhai a ymatebodd i'w gweld yn Atodiad A.

Gellir gweld crynodeb o'r ymatebion, ynghyd â dadansoddiad a chasgliadau Llywodraeth Cymru, yn Adran 2.

1.4 Digwyddiadau ymgynghori

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori fel rhan o'r broses ymgynghori. Nod y digwyddiadau oedd annog rhanddeiliaid i ymateb ac i alluogi'r rhai a oedd yn bresennol i:

- gael trosolwg o'r fframwaith deddfwriaethol drafft a'r newidiadau allweddol y bydd yn eu rhoi ar waith;
- gwirio eu dealltwriaeth o'r cynigion a cheisio eglurder, os oes angen;
- ystyried goblygiadau posibl ar gyfer eu rôl a'u sefydliad

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 6 Tachwedd 2018 yng Ngerddi Sophia, Caerdydd a chynhaliwyd yr ail ddigwyddiad ar 8 Tachwedd ym Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam.

1.5 Y camau nesaf

Yn dilyn cyngor gweithdrefnol gan wasanaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru, mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno y caiff y Rheoliadau drafft, fel yr ymgynghorwyd arnynt, eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Chwefror 2020 mewn dau offeryn statudol ar wahân. Y rhain yw:

- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020
- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

Mae'r ddwy set o Reoliadau yn diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005, sy'n gwneud darpariaeth sy'n ymwneud ag asiantaethau mabwysiadu yn arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Yn bennaf, mae'r set gyntaf o reoliadau newydd yn amnewid Rhan 4 newydd yn Rheoliadau 2005 i ddarparu ar gyfer proses gymeradwyo dau gam newydd ar gyfer darpar fabwysiadwyr. Fe'u gwneir gan ddefnyddio pwerau o fewn Deddf 2002 a byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Yn amodol ar weithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, byddant yn dod i rym ym mis Ebrill 2020.

Mae'r ail set o Reoliadau yn gosod gofynion ar asiantaethau mabwysiadu, wrth asesu addasrwydd cwpl i fabwysiadu plentyn, i roi sylw priodol i'r angen am sefydlogrwydd a pharhad yn eu perthynas. Fe'u gwneir gan ddefnyddio pwerau o fewn Deddf 2002 a byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Os caiff ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, disgwylir iddynt ddod i rym ym mis Ebrill 2020.

Mae Canllawiau Ymarfer yn cael eu paratoi i gynorthwyo gyda gweithredu'r rheoliadau hyn ac mae hyfforddiant i ymarferwyr ar y gofynion newydd yn digwydd.

Adran 2

2.1 Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru

Sylwer: Oherwydd talgrynnu rhai o'r canrannau, mae'n bosibl na fyddant yn adio i gyfanswm o 100%.

Cyflwyno proses dau gam ar gyfer asesu a chymeradwyo mabwysiadwyr.

| Cwestiwn 1: A yw'n briodol i ni gyflwyno proses dau gam yng Nghymru yn lle'r system bresennol ar gyfer asesu a chymeradwyo mabwysiadwyr? | | | | |
|---|-----------------|--------------------|-----------|----------|
| Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb nodi |
| 4 | 2 | 1 | 0 | 1 |
| 50% | 25% | 13% | 0% | 13% |

Crynodeb o'r ymatebion

Mae mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cytuno neu'n tueddu i gytuno ei bod yn iawn cyflwyno proses dau gam i ddisodli'r system bresennol ar gyfer asesu a chymeradwyo mabwysiadwyr.

Y farn gyffredinol yw bod y broses dau gam yn ddull synhwyrol sy'n caniatáu penderfyniadau cynharach, gan osgoi'r defnydd o adnoddau diangen, yn rhoi eglurder i ddarpar fabwysiadwyr yn gynnar yn y broses ac yn osgoi codi gobeithion ffug.

Mae yna gonsensws bod angen canllawiau ar yr hyn sy'n gyfystyr â "ddim yn addas i fabwysiadu", gan roi eglurder i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a thryloywder i bawb dan sylw.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Croesawn y gefnogaeth a ddangoswyd i'r bwriad i gyflwyno'r broses dau gam. Dylai'r canllawiau ymarfer a'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu wneud y gofynion a'r diffiniadau'n glir i ymarferwyr.

Y gofynion ar asiantaethau mabwysiadu o dan broses dau gam.

Cwestiwn 2: A yw'r gofynion newydd a roddir ar asiantaethau mabwysiadu yn briodol, yn ymarferol ac yn gymesur?

| Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb nodi |
|--------|-----------------|--------------------|-----------|----------|
| 5 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| 63% | 0% | 0% | 0% | 38% |

Crynodeb o'r ymatebion

Mae mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y gofynion newydd yn briodol, yn ymarferol ac yn gymesur.

Er bod y mwyafrif yn cytuno â'r newidiadau a awgrymwyd, mae pryderon wedi'u codi ynglŷn â'r newidiadau i amserlenni, gyda chanlyniadau posibl y bydd perygl o ruthro asesiadau er mwyn bodloni'r amserlenni.

Nodwyd bod risg yn deillio o rai o'r gwiriadau gofynnol gan awdurdodau lleol na fyddent yn cael eu cynnal tan gam dau. Teimlwyd bod hyn yn creu'r potensial i beidio â sylwi ar faterion amddiffyn plant posibl tan hynny.

Awgrymwyd y dylid cynnal pob gwiriad awdurdod lleol yng ngham un ac y dylid cynnal hyfforddiant cyn cymeradwyo i ddarpar fabwysiadwyr ar yr adeg hon hefyd er mwyn caniatáu dewisiadau mwy gwybodus.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu ymateb cadarnhaol ymatebwyr i ymarferoldeb y newidiadau arfaethedig.

O ran y pryderon penodol a nodwyd,

- O dan y cynigion hyn, y bwriad mewn gwirionedd yw y bydd yr awdurdodau lleol yn cynnal gwiriadau yng ngham 1 ac nid yng ngham 2 yn unig.
- Er y bydd yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru ychwanegu at y gofrestr fabwysiadu fanylion y plant y mae'r asiantaeth wedi'u hawdurdodi i'w lleoli ar gyfer eu mabwysiadu o fewn terfyn amser uchaf newydd o 1 mis, bydd yn dal yn agored i'r asiantaethau hynny wneud penderfyniad ynghylch yr amser priodol i agor manylion y plentyn i wahanol ddefnyddwyr y Gofrestr gael mynediad atynt. Felly, pe bai angen asesiadau pellach o gyflwr meddygol, er enghraifft, gallai asiantaeth benderfynu peidio ag agor y cofnod hwnnw ar gyfer paru posibl gan eraill ar yr adeg pan oedd un mis wedi mynd heibio – cyn belled â bod manylion y plentyn wedi'u

cofnodi ar y gofrestr ei hun fel sy'n ofynnol, o fewn y mis. Mae eithriad penodol hefyd i'r gofyniad i gofnodi manylion y plentyn cyn pen mis, lle y ceisir paru â darpar fabwysiadwyr penodol eisoes.

- Mae'r amserlen o fis ar gyfer cofnodi'r manylion hyn, yn ogystal ag adlewyrchu'r ffaith ei bod yn arfer da i wneud popeth posibl i gael cyfatebiaeth gynnar o ansawdd da, hefyd yn ddisgwyliad gan y Llysoedd. Mae risg y bydd Swyddogion Adolygu Annibynnol yn ystyried newid cynllun y plentyn os oes gormod o oedi ac y gallai hyn o bosibl arwain at blant yn colli'r cyfle i ddod o hyd i sefydlogrwydd a chariad gyda theulu mabwysiadol, a'u bod, yn hytrach, yn aros mewn gofal am weddill eu plentyndod.
- Mae'r rheoliadau eisoes yn pennu bod yn rhaid i asiantaethau roi i'r darpar fabwysiadwr unrhyw wybodaeth ac unrhyw ddeunyddiau hyfforddi sy'n ymwneud â mabwysiadu plentyn sydd ar gael i'w defnyddio.

Lleihau'r cyfnod hwyaf a ganiateir ar gyfer cyfeirio manylion plentyn neu fabwysiadwr i'r gofrestr fabwysiadu.

Cwestiwn 3: A yw'n briodol i'r cyfnod mwyaf a ganiateir ar gyfer atgyfeirio'r wybodaeth hon gael ei leihau i o fewn mis i benderfyniad yr asiantaeth?

| Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb nodi |
|--------|-----------------|--------------------|-----------|----------|
| 1 | 2 | 3 | 1 | 1 |
| 13% | 25% | 38% | 13% | 13% |

Crynodeb o'r ymatebion

Ceir barn ranedig ar fater y cyfnod hwyaf a ganiateir ar gyfer cyfeirio manylion plentyn neu fabwysiadwr at y gofrestr fabwysiadu.

Mae'r rhai sy'n anghytuno neu'n tueddu i anghytuno yn codi pryderon am amserlen fyrrach gan ychwanegu pwysau cynyddol ar amser ac adnoddau awdurdodau lleol.

Codwyd pryderon mwy penodol ynghylch hyn, gyda'r dewis o adael plant yn eu consortiwm lleol oherwydd heriau yn deillio o leoli plant y tu allan i'r ardal, a'r anhawster o gael gafael ar y gwasanaethau cymorth cywir ar eu cyfer pan oedd hyn yn digwydd. Codwyd hefyd y goblygiadau cost sy'n deillio o leoli plant y tu allan i gonsortia lleol, gan nodi y dylid buddsoddi rhagor o adnoddau ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn medru cyflawni'r newidiadau yn yr amserlen.

Mae'r rhai sy'n cytuno yn awgrymu y bydd y newid hwn yn lleihau amseroedd aros ar gyfer plant sydd ond yn gallu bod yn gam cadarnhaol. Gwnaed y pwynt na fydd yn atal yr awdurdod cymeradwyo rhag lleoli plant o fewn y rhanbarth, ond y bydd yn lleihau'r oedi i blant mewn awdurdodau eraill.

Bu ymatebwyr yn gofyn am gael newid y pwynt lle y dechreuir cyfri'r cyfnod o 1 mis. Gofynnwyd am i'r cyfrif ddechrau o'r dyddiad yr awdurdodwyd yr asiantaeth i leoli'r plentyn i'w fabwysiadu, yn hytrach nag o'r pwynt y gwnaed penderfyniad y dylid lleoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn bwriadu cyflwyno'r newid hwn mewn ymateb i gais gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, ar sail ei gyngor proffesiynol y bydd yn lleihau oedi i blant sy'n aros am leoliad mabwysiadol.

Pan gynhaliwyd y digwyddiadau i randdeiliaid a'r ymgynghoriad ysgrifenedig, roedd y Gofrestr Fabwysiadu newydd yn cael ei hymsefydlu ac roedd asiantaethau'n dal i ddatblygu eu gwybodaeth ynghylch ei alluoedd. Mae'r Gofrestr newydd yn llawer mwy hyblyg ac ymatebol nag y gallai'r dechnoleg flaenorol ei ganiatáu ac wrth i ymarferwyr barhau i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r hyn y gall ei wneud, credwn y gwelant eu bod yn cadw

rheolaeth dros faterion megis pryd i ryddhau gwybodaeth am blentyn penodol neu grŵp o frodyr a chwiorydd ar gyfer paru posibl y tu allan i ardal cydweithrediaeth ranbarthol y cartref. Y prif sbardun yn hyn o beth fydd y ffordd orau o ddiwallu anghenion y plentyn neu'r grŵp hwnnw o frodyr a chwiorydd – felly os oes problemau penodol o ran cael mynediad at drefniadau cymorth arbenigol, angen am fabwysiadwr sy'n siarad Cymraeg ac ati, bydd yr asiantaeth yn dal i allu ystyried y materion hyn wrth wneud eu penderfyniadau a phennu eu blaenoriaeth gymharol o fewn eu cynllunio ar gyfer y plentyn hwnnw.

Cytunwn y dylem newid y pwynt o ba bryd y dylid dechrau cyfrifo'r cyfnod hwyaf o fis, o ran rhoi manylion plentyn ar y Gofrestr. Rydym yn cytuno y byddai'n well dechrau cyfrif o'r dyddiad yr awdurdodwyd yr asiantaeth i leoli'r plentyn i'w fabwysiadu, oherwydd bod hyn yn adlewyrchu orau'r cyfnod y galluogir yr asiantaeth i fynd ati i chwilio am leoliad mabwysiadol. Byddwn yn diwygio'r gofyniad hwn yn unol â hynny.

Galluogi 'person awdurdodedig' i weithredu fel tyst i gydsyniad rhiant neu warcheidwad.

Cwestiwn 4: A yw'n briodol, pan fo rhiant neu warcheidwad yn byw y tu allan i Gymru neu Loegr, i ni ehangu'r categorïau o bobl a all gyflawni'r swyddogaeth hon?

| Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb nodi |
|--------|-----------------|--------------------|-----------|----------|
| 6 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| 75% | 13% | 0% | 0% | 13% |

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd yr holl ymatebwyr a nododd farn yn cytuno, pan fo rhiant neu warcheidwad yn byw y tu allan i Loegr neu Gymru, fod ehangu'r categorïau o bobl sy'n gallu cyflawni'r swyddogaeth hon yn iawn, ac y byddai'n osgoi oedi ac yn gostwng costau er mwyn gallu ymdrin â'r mater hwn mewn ffordd fwy hyblyg.

Codwyd cwestiwn ynghylch a fyddai hyn yn cael ei ehangu ar gyfer y DU gyfan ac o ble y byddai'r costau ar gyfer y newid hwn yn cael eu talu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Croesawn gefnogaeth ymatebwyr i'r newid hwn. Er ei bod yn anarferol ceisio caniatâd o dan yr amgylchiadau a ragwelir, bydd y newid hwn yn caniatáu'r posibilrwydd o fwy o hyblygrwydd yn y ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. O dan y trefniadau newydd, gallai swyddog consylaidd Prydeinig sydd eisoes mewn gwlad dramor (neu rywun arall ar y rhestr benodedig) gael y caniatâd hwn ar eu rhan a byddai angen i CAF/CASS Cymru neu'r asiantaeth ond ad-dalu costau lleol yr unigolyn hwnnw.

Mae dull tebyg eisoes wedi'i gyflwyno yn y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r trefniadau ar gyfer Lloegr. Mae'r cwestiwn a ddylid cyflwyno dull tebyg yng Ngogledd Iwerddon neu'r Alban, neu yn wir sut y mae'r gyfundrefn yn gweithredu yn Lloegr, yn gwestiynau i'r gwledydd hynny.

2.2 Cwestiynau ychwanegol

Cwestiwn 5: Ydych chi'n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pam/pam ddim?
Ydych chi'n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig?

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd pob un yn cytuno nad yw'n ymddangos y bydd unrhyw effaith naill ai mewn ffordd negyddol neu gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

Nodwyd y disgwyliad am asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb ac y byddai angen adolygu hyn yn barhaus.

O'r rhai a ymatebodd, roedd consensws nad oedd rheswm dros gredu y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad yn cael unrhyw effaith negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

Cafwyd ymateb cynhwysfawr gan Stonewall Cymru a oedd yn awgrymu y gallai system ddwy haen alluogi darpar fabwysiadwyr LGBT i gael eu diystyru yng nghanam 1 oherwydd rhagfarn. Gwnaed argymhellion ganddynt ar sut i fynd i'r afael â phenderfyniadau sy'n cael eu heffeithio gan ragfarn homoffobig, deuffobig neu drawsffobig:

- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol ac asiantaethau gwirfoddol i sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio mewn asiantaethau mabwysiadu yn ymgymryd â hyfforddiant ar fynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl LGBT a darparu gwasanaethau cynhwysol. Dylai'r hyfforddiant hwn roi enghreifftiau ymarferol i staff o ragfarn a gwahaniaethu sy'n berthnasol i'w rôl.
- Dylai canllawiau sy'n cyd-fynd ag unrhyw newidiadau ddarparu enghreifftiau clir o resymau derbyniol ac annerbyniol i asiantaeth beidio â mynd â chais ymlaen at asesiad panel llawn.
- Dylai Llywodraeth Cymru fonitro ceisiadau am fabwysiadu ar lefel genedlaethol wedi'u dadansoddi yn ôl nodweddion cydraddoldeb, gan gynnwys yn ôl rhyw, hil, anabledd, crefydd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol a statws traws. Ymhlith dibenion eraill, gellir defnyddio hyn i nodi a yw grwpiau penodol yn cael eu hallgáu'n anghymesur yn ystod y cam cychwynnol. Dylai weithio gydag asiantaethau mabwysiadu i sicrhau bod y data hwn yn cael ei gasglu'n gyson ac yn briodol, yn ddiennw a'i gadw ar wahân i'r broses asesu. Lle y bo'n bosibl, dylai'r data hwn fod ar gael i'r cyhoedd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn ystyried o ddifrif unrhyw awgrym y gallai fod gwahaniaethu neu ragfarn ar waith o fewn y system fabwysiadu yng Nghymru. Ni chodwyd materion neu achosion unigol o'r fath sy'n groes i hynny gyda ni na'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, ond rydym yn

ymrwymo i archwilio'r materion hyn gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol gan ofyn iddynt ymchwilio i'r mater hwn i weld a oes unrhyw dystiolaeth gadarn o Gymru bod y broblem hon yn digwydd yma.

Bydd canllawiau ymarfer a hyfforddiant yn nodi'n gwbl glir ein disgwyliadau ynghylch y rhesymau derbyniol dros ddiystyru darpar fabwysiadwr yng nghan 1 a'n diffyg goddefgarwch o ragfarn a gwahaniaethu.

Cwestiwn 6: Rydym yn awyddus i glywed eich barn chi ar yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau ydych chi'n credu fyddai'n cael eu creu? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

Esboniwch hefyd sut ydych chi'n credu y gellir llunio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn:

i) sicrhau effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, a

ii) sicrhau nad oes unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Crynodeb o'r ymatebion

Y consensws cyffredinol gan ymatebwyr yw nad ydynt yn gweld y bydd y cynigion yn effeithio ar y Gymraeg.

Awgrymwyd y gallai'r canllawiau ar gyfer cyfeirio plant at y gofrestr o fewn un mis effeithio ar blant o ran eu hunaniaeth a hefyd lle nad yw eu dewisiadau iaith a'u treftadaeth ddiwylliannol yn cyfateb.

Codwyd y mater posibl o adnoddau ar gyfer cyfieithu.

Tynnwyd sylw at yr angen am rieni mabwysiadol Cymraeg a staff Cymraeg eu hiaith a all gefnogi'r broses gyfan.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel y disgrifiwyd eisoes, roedd rhai ymatebwyr yn ddryslyd ynghylch y gofyniad i ychwanegu manylion at y gofrestr o fewn mis, gan dybio'n anghywir y byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i fanylion yr holl blant ar y gofrestr fod ar gael i'r holl asiantaethau ar y gofrestr ar gyfer paru posibl ar ôl mis.

Mae hunaniaeth, dewisiadau iaith a threftadaeth ddiwylliannol yn dal yn ystyriaethau pwysig iawn i asiantaethau eu pwysu a'u mesur wrth wneud penderfyniadau am yr hyn sydd er lles gorau'r plentyn.

Nid ydym yn cytuno bod y gofyniad i ddefnyddio'r Gymraeg ar y Gofrestr, fel y bo'n briodol, yn gosod baich costau newydd, gan fod deddfwriaeth ynghylch y Gymraeg wedi bod ar waith ers rhai blynyddoedd. Yn yr un modd, mae'r angen i recriwtio digon o rieni

mabwysiadol a staff sy'n siarad Cymraeg wedi bod yn agwedd hirsefydlog a phwysig ar strategaethau recriwtio asiantaethau yn y ddau faes hyn.

Cwestiwn 7: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydynt wedi'u trafod yn benodol yma, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.

Crynodeb o'r ymatebion

Amlygwyd ystyriaethau yn ymwneud â'r broses dau gam unwaith eto. Mynegwyd pryderon ynghylch effaith y newidiadau hyn yn Lloegr, a'r effaith bosibl ar adnoddau i awdurdodau lleol yma yng Nghymru. Gwnaed yr awgrym unwaith eto bod angen arweiniad ynghylch yr hyn sy'n golygu bod darpar fabwysiadwr yn cael ei ystyried fel un nad yw'n addas ar gam 1 o'r broses asesu.

Codwyd anghenion mabwysiadwyr sy'n berthnasau o ran a oes angen gwneud unrhyw newidiadau er mwyn sicrhau bod plant sydd wedi'u symud yn barhaol o'u rhieni yn gallu aros, cyn belled ag sy'n rhesymol bosibl, yn eu rhwydweithiau teulu biolegol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw bryderon penodol ynghylch gweithredu'r broses dau gam yn Lloegr. Yn wir, ein dealltwriaeth ni yw ei fod yn gweithio'n dda.

Bydd canllawiau ymarfer a hyfforddiant yn cael eu darparu i roi mwy o fanylion i ymarferwyr ynghylch ar ba sail y gellid ystyried bod darpar fabwysiadwr yn anaddas a'i ddiystyru yng Ngham 1.

Nid ydym yn glir ynghylch beth yn union y cyfeirir ato gyda'r term "kinship adopters" – ni cheir hyn yn y gyfraith yng Nghymru. Gwarcheidiaeth Arbennig yw'r llwybr y gallai aelodau'r teulu biolegol ei ddefnyddio'n gyfreithlon i ymgymryd â rhianta plentyn yn eu teulu estynedig a allai fel arall gael ei fabwysiadu. Mae'n ffurf werthfawr a llwyddiannus o sefydlogrwydd i blant yng Nghymru.

Mae geiriad y Rheoliadau wedi'i ddiwygio hefyd mewn perthynas â sefyllfaoedd lle mae darpar fabwysiadwr yn hysbysu'r asiantaeth ei fod yn dymuno parhau â'r broses asesu fwy na chwe mis o'r dyddiad yr hysbysodd yr asiantaeth y darpar fabwysiadwr y gallent fod yn addas i fabwysiadu. Diben y gwelliant yw ei gwneud yn glir y bydd yn rhaid ailadrodd y broses cyn-asesu mewn perthynas â'r darpar fabwysiadwr i'r graddau y mae'r asiantaeth fabwysiadu yn tybio bod angen hynny.

Mân newid arall rydym wedi'i wneud o ran ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad yw cynyddu'r terfyn amser ar gyfer darpar fabwysiadwr sydd wedi'i hysbysu gan yr asiantaeth fabwysiadu nad oedd yn addas i fabwysiadu plentyn i gyflwyno sylwadau i'r asiantaeth neu i wneud cais i Weinidogion Cymru am adolygiad o'r penderfyniad gan banel adolygu annibynnol. Mae'r terfyn wedi'i gynyddu o 20 diwrnod o'r dyddiad yr hysbyswyd y darpar fabwysiadwr i 40 diwrnod.

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

| Rhif | Cyfrinachol Ydy / Nac ydy | Sefydliad/ar ran |
|------|---------------------------------|--|
| 1. | ✓ | Cyngor Sir y Fflint |
| 2. | ✓ | NWAS a rhanbarthau |
| 3. | ✓ | Gofal Cymdeithasol Cymru |
| 4. | ✓ | Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru |
| 5. | ✓ | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| 6. | ✓ | Stonewall Cymru |
| 7. | ✓ | CBS Rhondda Cynon Taf |
| 8. | ✓ | |